

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL PANEL HEDDLU A THROSEDD



Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Gwener 31 Ionawr 2020 at 10.30 am
Council Chamber - Bodlondeb

- a) **Adendwm i Adroddiad Praesept a Threth y Cyngor 2020/21**
(Tudalennau 1 - 3)

Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Teitl:	Adendwm i Adroddiad Praesept a Threth y Cyngor 2020/21
Cyfarfod:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 31 Ionawr 2020
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adendwm yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel yn dilyn cyhoeddiad cyllido'r Swyddfa Gartref ar 22 Ionawr 2020.

2. Setliad 2020-21

2.1 Cyhoeddwyd Setliad Ariannol yr Heddlu 2020-21 ar 22 Ionawr mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Oedwyd y cyhoeddiad oherwydd Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019. Cyn cyhoeddi setliad 2020-21 roedd y sector yn disgwyl £750m ychwanegol ar gyfer recriwtio 6,000 o swyddogion (tuag at gyfanswm o 20,000), minws ailddyrianiad ar gyfer costau canolog. Roedd dyraniadau heddlu o ran niferoedd swyddogion eisoes wedi'i gyhoeddi a'i gyfrifo fel pro-rata yn y grant craidd. Am yr arian ychwanegol mae'r Trysorlys wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref ddod o hyd i £120m o arbedion o fewn eu cyllideb.

2.2 Mae'r prif benawdau cenedlaethol isod

- £50m o'r £750m a gedwir yn ganolog i gefnogi recriwtio swyddogion
- O'r £700m sy'n weddill - £532m drwy grant craidd heb ei glustnodi, £168m wedi'i glustnodi ar gyfer bodloni targedau recriwtio'n llwyddiannus.
- Dim cynnydd chwyddiant yn y grant craidd
- Gan arwain at gynnydd o 7.5% mewn cyllid craidd
- £10 hyblygrwydd praesept ar gyfer holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn Lloegr (dim cap wedi'i osod ar Gomisiynwyr yng Nghymru)
- Cynnydd o £92m (9%) mewn ailddyrianiadau i hyd at £1.1bn yn 2020-21
- Dyraniadau grant pensiwn gwastad o'i gymharu â 2019-20 (i dalu costau cynyddol)
- Lleihad o 74% i gyllid grant cyfalaf y Comisiynwyr
- Dod â Chronfa Drawsnewid yr Heddlu i ben

2.3 Mae'r setliad wedi canolbwyntio ar recriwtio Cam 1 a Cham 2 yr ymgyrch 'uplift' a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cael dyraniad o 62 o Swyddogion fel rhan o gam 1 (6,000 o swyddogion yn genedlaethol) ac yn seiliedig ar y fformiwla dyrannu, disgwylir 140 arall yng Ngham 2 (14,000) yn genedlaethol. Mae'r symiau ychwanegol wedi cael eu darparu i dalu costau Cam 1 a chostau isadeiledd Cam 2.

2.4 Roedd y setliad ond yn cynnwys 2020-21, gan grybwyll Cam 2 yr ymgyrch 'uplift', ond ni chrybwyllwyd unrhyw ddyraniadau arian posibl o 2021-22 ymlaen. Bydd y Llywodraeth yn

cynnal Adolygiad o Wariant dros yr haf i benderfynu ar gyllid o 2021-22 i 2023-24, ac nid yw'n hysbys os fydd mwy o gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer Cam 2 yr ymgyrch 'uplift' neu os caiff ei adael ar £750m yn genedlaethol nes i'r Adolygiad o Wariant gael ei gwblhau. Mae hyn yn creu lefel uchel o ansicrwydd o ran gallu ariannu'r cynnydd mewn niferoedd swyddogion yn y dyfodol yn llawn.

- 2.5 Nid yw chwyddiant wedi cael ei gynnwys yn y ffigyrau, o'r £162m o chwyddiant a ddarparwyd yn genedlaethol i ddechrau, mae £120m wedi cael ei gymryd fel arbedion effeithlonrwydd gan y Trysorlys fel rhan o'r cytundeb i ddarparu £750m tuag at gostau'r ymgyrch 'uplift'; ac mae'r gweddill wedi cael ei ychwanegu at ddyraniadau canolog y Swyddfa Gartref (brig-doriant).
- 2.6 Mae dyraniadau Grant Cyfalaf i'r Comisiynwyr wedi cael ei leihau 74% o £46.9m i £12.3m. Mae hyn yn ostyngiad o £0.339m i Heddlu Gogledd Cymru, neu'n cyfateb i £1.695m dros y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd. Defnyddir y grant cyfalaf i gyllido'r rhaglen amnewid cerbydau, er mwyn cynnal y lefel o fuddsoddiad, bydd angen cynyddu'r cyfraniad referniw blyneddol i symiau cyfatebol o 2020-21 ymlaen. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r bwriad i'r cynnydd mewn grant craidd gael ei ddefnyddio'n hyblyg, gan gynnwys cyllid cyfalaf.
- 2.7 Mae'r Swyddfa Gartref wedi gosod cyfyngiad o £10 ar gyfer Comisiynwyr yn Lloegr, gyda'r gofyniad i gynnal refferendwm os ydynt yn dymuno cynyddu'r swm hwn. Nid oes unrhyw reolau capio wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae Comisiynwyr yn Lloegr yn derbyn dyraniad ychwanegol o Grant Lleihau Treth y Cyngor hanesyddol o £510m, sydd yn gyfatebol ar gyfartaledd i leihad o £26 yn Nhreth y Cyngor Band D yn Lloegr. Nid yw'r Heddluoedd yng Nghymru yn derbyn dyraniad o'r grant hwn.
- 2.8 Mae crynodeb o'r newidiadau i'r ffigyrau o'r CATC isod:

Setliad 2020-21	CATC £m	Setliad £m	Amrywiant £m
Grant Sylfaen	73.234	78.714	5.480
Grant Pensiwn	1.582	1.582	0
Clustnodwyd (yn amodol ar dargedau 'uplift')	0	1.731	1.731
Grant Cyfalaf	0.462	0.123	-0.339
Cyfanswm	75.278	82.150	6.872

- 2.9 Mae'r amcangyfrifon cyfredol ar ofynion cam 1 a 2 yr ymgyrch 'uplift' wedi'u nodi isod. Mae Cam 1 wedi'i ddatblygu'n dda, ond mae angen cadarnhau'r gofynion. Nid yw Cam 2 wedi datblygu cymaint, ond gellir amcangyfrif yn seiliedig ar lefel debyg o recriwtio ychwanegol, hyfforddiant ac offer ar gyfer 2021-22 a 2022-23. Bydd gofynion isadeiledd ychwanegol, megis Ystadau, nad ydynt wedi eu nodi eto gan eu bod yn dibynnu ar ddyraniad Cam 2 (e.e.

oes angen adeiladau newydd?) yn ogystal â chostau cefnogi a chostau ar wahân i staff, yn dibynnu ar y dyraniad terfynol.

Gofynion ymgyrch 'uplift'	£m
Costau Craidd Cam 1 (62 o Swyddogion)	3.242
Hyfforddiant – Blynnyddoedd 1-3 Cylchol (Cam 1 a 2)	0.665
HR Recruitment Years 1 - 3 (Phase 1 and 2)	0.243
Cerbydau - Cylchol	0.431
Costau sefydlu TG ac Eraill	0.385
Gwisgoedd ac Offer	0.115
Amrywiant Staffio Swyddogion (recriwtio cynnar)	0.420
Cyfanswm	5.500
Balans ar gyfer isadeiledd 'uplift' ychwanegol yn y dyfodol a phwysau costau eraill	1.372

- 2.10 Y meysydd lle mae pwysau o ran costau sy'n cael eu dadansoddi yw buddsoddiad mewn TG a systemau cyfathrebu ac offer eraill, cyfraniadau i gydweithio cenedlaethol a rhanbarthol; a darparu arbedion effeithlonrwydd lle mae pwysau cynyddol ar gyllidebau staff a chyllidebau nad ydynt yn staff, o ganlyniad i dwf yn niferoedd y swyddogion.
- 2.11 Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, y gofyniad i ariannu isadeiledd Cam 1 a 2 o'r ymgyrch 'uplift', a'r ansicrwydd o ran y gyllideb o 2021-22 ymlaen, mae'r cynnig yn yr adroddiad gwreiddiol yn aros yr un fath: cynnydd o £12.51 yn nhreth y cyngor (cynnydd o 4.5%) a praesept o £84.990m. Os yw'r holl Heddluoedd yn Lloegr yn cynyddu treth y cyngor £10 (yr uchafswm a ganiateir heb refferendwm) yr ystod o ran cynnydd yn Lloegr fydd 3.6% i 7.4%. Disgwylir i'r cynnydd yn y tri Heddlu arall yng Nghymru fod yn uwch na 4.5%. Gofynnir i'r Heddlu gyflwyno cynlluniau manwl ar gyfer yr ymgyrch 'uplift', a'r effaith er mwyn dangos defnydd defnyddiol o arian cyhoeddus.
- 2.12 Bydd y ffigyrau Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael eu hadolygu i gynnwys yr uchod ac unrhyw adolygiadau sy'n ofynnol i ragdybiaethau'r dyfodol; fodd bynnag bydd y rhain yn seiliedig ar amcangyfrifon gan nad yw'r Swyddfa Gartref wedi darparu unrhyw fynegiant o ran cyllid yn y dyfodol.